**ADDOLI AR Y CYD**

**YSGOL DAVID HUGHES**

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | Ydy √ | Nac ydy |

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae Ysgol David Hughes yn ymateb i ofynion statudol y Ddeddf Addysg trwy sicrhau cyfleoedd beunyddiol i ddysgwyr addoli ar y cyd. Mae'r dysgwyr yn cyfarfod fel blwyddyn unwaith yr wythnos ar gyfer addoliad torfol. Ar yr adegau yma, mae'r addoliad yn cael ei arwain gan Bennaeth Blwyddyn neu aelod o'r Uwch Dim Arwain, neu, yn gynyddol, gan y dysgwyr eu hunain. Yn yr arferion gorau, ceir rota lle mae pob dosbarth cofrestru yn cymryd eu tro i arwain yr addoliad. Yn achlysurol, gwahoddir aelod o'r gymuned i mewn i arwain yr addoliad, yn arbennig ar adegau arbennig fel Gwyl Ddewi. Mae natur yr addoliad yn dilyn y traddodiad Cristnogol.

Darperir myfyrdodau ar gyfer gweddill yr wythnos. Mae'r myfyrdodau hyn yn cael eu rhannu o flaen llaw gyda'r tiwtoriaid ac mae'r tiwtoriaid, neu weithiau y cynrychiolydd dosbarth, yn gyfrifol am rannu'r rhain gyda phob dosbarth cofrestru. Mae'r myfyrdodau hyn wedi eu seilio ar Gonfensiwn Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig ac maent yn tynnu sylw at gyfrifoldeb pob unigolyn i sicrhau tegwch a chyfiawnder i bob plentyn. Mae'r myfyrdodau hefyd yn cyfeirio at y calendr Cristnogol trwy gyfrwng y hawliau (e.e. deunyddiau Cymorth Cristnogol ar gyfer y Grawys a'r Adfent). Maent hefyd yn tynnu sylw at ddyddiau pwysig yn y calendr e.e. Pythefnos Masnach Deg.

Bwriad yr addoliad torfol a'r myfyrdodau hyn yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ystyried ei rôl ef/hi yn y byd ac i ddatblygu'n foeosol, yn ysbrydol a yn gymdeithasol. Sicrheir bod pob dysgwr yn:

- cael amser i feddwl mewn tawelwch
- cael ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol
- cael ysgogiadau amrywiol a all fod stori, yn glip fideo, yn gerddoriaeth, yn gelf
- cael cyfle i ddatblygu'n ysbrydol trwy ystyried ystyr ddyfnach yr hyn a welir

Perchir hawl rhieni i dynnu eu plant allan o'r addoliad ar y cyd a darperir lle diogel iddynt fynd iddo pe bai angen. Mae'r ysgol yn ymfalchio yn y ffaith nad oes yna ddysgwyr yn cael eu tynnu allan o'r addoliad ar hyn o bryd a bod pob dysgwr yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu'r gwasnaeth a hynny serch yr amrywiaeth crefyddol sydd gennym yma. Teimlir bod yr agwedd gynhwysol hon yn gryfder yn yr ysgol.

**Materion sydd angen sylw**

- Cynyddu'r nifer o wasanaethau a gynhelir gan ddysgwyr ar draws y blynyddoedd
- Rhannu'r arfer dda a geir yma

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |